

Gwahoddiad i Dendro: ME018 Gwaith Cyfalaf a Cynnal a Chadw Heneb Gofrestredig Caer Gai

1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwahodd i dendrau gael eu cyflwyno i ymgymryd â gwaith cyfalaf a chynnal a chadw ar safle archeolegol Caer Gai, Llanuwchllyn, Y Bala, LL23 7ST. Lleolir y safle ychydig y tu allan i bentref Llanuwchllyn ac fe'i gosodir o fewn fferm sy'n gweithio. Mae'r safle yn cynnwys nifer o asedau hanesyddol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol; heneb gofrestrdig a dau adeilad rhestredig. Yn benodol, mae'n cynnwys olion hen setliad caer Rufeinig a hefyd olion hanes mwy diweddar.

Mae'r gwaith cyfalaf a'r gwaith cynnal a chadw a amlinellir yn y ddogfen hon yn rhan o ymdrechion rheoli treftadaeth sydd wedi bod yn parhau ar y safle ers 2013. Yn gyffredinol, mae pedair gwedd / cam o waith ar y safle ac mae hyn yn rhan o'r bedwaredd cam, sef yr olaf. Roedd y tri cham cyntaf yn canolbwyntio ar waith cadwraeth angenrheidiol ar y safle. Y cam olaf hwn, sy'n adeiladu ar y gwaith hwn trwy wella hygyrchedd a chyfleusterau dehongli a hefyd cynnal a chadw'r safle yn y tymor hir.

2. Manylion y gwaith sydd i'w gwblhau

Bydd gofyn i'r contractwr llwyddiannus ymgymryd â'r gwaith a'i gwblhau fel y'i amlinellir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' atodedig (gweler atodiad 1).

3. Dynodiadau statudol a mesurau lliniaru archeolegol

- Bydd y gwaith cyfalaf a chynnal a chadw fel y'i hamlinellir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' ynghlwm (gweler atodiad 1) yn cael ei gynnal o fewn ardal heneb gofrestrdig ddynodedig (gweler ffigur 1 isod). Mae hyn yn golygu bod yr holl waith a bennir yn y ddogfen atodedig yn bosibl ddim ond o achos eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan Cadw, Asiantaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru. O'r herwydd, **ni chaniateir gwyriad** o'r gwaith penodedig gan y contractwr llwyddiannus. Gall unrhyw dor-rheolaeth o hyn gael ei ystyried yn weithred anghyfreithlon gan y contractwr a gall hefyd fod yn **drosedd treftadaeth**.
- Mae tarfu / aflonyddu ar y tir, ac eithrio'r hyn a bennir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' (gweler atodiad 1) wedi'i **wahardd yn llym**. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r contractwr llwyddiannus sicrhau **na** wnaiff unrhyw botsio o'r ddaear ddigwydd ac na wnaiff unrhyw waith ceisio darganfod metel gael ei gynnal ganddynt hwy eu hunain, gan eu staff, nac ychwaith unrhyw gontractwr cysylltiedig yn ystod dechrau'r gwaith ar y safle. Bydd methiant i gydymffurfio â hyn yn golygu eich bod wedi gweithredu yn **anghyfreithlon** ac fe all hefyd fod yn **drosedd treftadaeth**.
- Fel y nodir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' (gweler atodiad 1), bydd unrhyw aflonyddu / darfu ar unrhyw dir yn cael ei oruchwylio gan archeolegydd cymwys addas (i'w drefnu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Efallai y bydd yn rhaid torri ar draws y gwaith neu ei atal dros dro pe bai olion archeolegol yn cael eu darganfod. Yn ogystal, rhaid cadw cofnod ffotograffig o'r holl waith fel yr amlinellir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' (gweler atodiad 1) gan archeolegydd cymwys addas (i'w drefnu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Cynghorir partïon sydd â diddordeb mewn tendro am y gwaith hwn i ystyried yr amod hwn wrth baratoi eu



dyfynbris. Gan fod pris y dyfynbris yn un o'r ystyriaethau wrth benodi yna ni ellir ei gynyddu ar ôl dechrau ar y gwaith / wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.



Ffigwr 1. Maint yr heneb gofrestredig (fel yr amlinellid mewn coch). © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata yn gywir 2012. Arolwg Ordnans 100021874.

4. Sgiliau a gofynion contractwyr

- Dyrannu adnoddau digonol a chlir i'w darparu o fewn yr amserlen benodedig (gweler adran 5 isod). **[HANFODOL]**
- Profiad blaenorol o ymgymryd â gwaith neu gomisiynau tebyg. **[HANFODOL]**
- Trwyddedau perthnasol, gan gynnwys tynnu gwastraff, strimio, defnyddio llif gadwyn, cloddiwr bach ac unrhyw offer a pheiriannau trwm eraill sydd eu hangen. **[HANFODOL]**
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n ddigonol ar gyfer lefel y gwaith. **[HANFODOL]**
- Profiad o wneud gwaith ar asedau amgylchedd hanesyddol, yn arbennig henebion cofrestredig. **[DYMUNOL]**

Noder: Ni fydd ceisiadau sy'n methu â bodloni'r meini prawf hanfodol a restrir uchod yn cael eu hystyried.

5. Amserlen

Disgwylir i'r contractwr llwyddiannus gwblhau'r gwaith a amlinellir yn y ddogfen 'manyleb ar gyfer y gwaith' (gweler atodiad 1) rhwng **04 Mawrth 2018 a 31 Mai 2019**.

Noder: Gall dyddiad dechrau cynharach yn cael ei drafod os yw hynny'n ddymunol.



6. Costiadau

Fel rhan o'r broses dendro, **rhaidd** darparu dadansoddiad manwl o gostau (heb TAW) ar ffurf y ddogfen atodedig (gweler atodiad 2).

7. Y broses ymgeisio a chyflwyno

Dylid cyflwyno ceisiadau mewn amlen gaeedig wedi'i selio i:

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd,
LL48 6LF.**

Sicrhewch fod yr amlenni wedi'u marcio fel â ganlyn; **Cyfrinachol: Tendr Caer Gai,**

Dylid derbyn cyflwyniadau ddim hwyrach na **18 Ionawr 2019**. Ni fydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu hystyried. Bydd y tendrwr llwyddiannus yn cael ei hysbysu ar **25 Ionawr 2019**.

Darparwch y dogfennau canlynol gyda'ch cais os gwelwch yn dda:

- Datganiad dull, gan gynnwys dull gweithredu ac amserlen.
- Costiadau (yn y fformat a ddarperir yn atodiad 2)
- Profiad blaenorol gan gynnwys enghreifftiau o waith gorffenedig tebyg, gan gynnwys lluniau (lle bo modd)
- Prawf o yswiriant atebolwydd cyhoeddus priodol ac unrhyw drwyddedau / tocynnau perthnasol eraill (defnydd o beiriannu a pheirianwaith, strimio, gwaredu deunydd gwastraff ac ati).
- Enghreifftiau o waith blaenorol ar asedau amgylchedd hanesyddol gan gynnwys henebion cofrestredig, gan gynnwys lluniau (lle bo'n bosib ac os oes gennych brofiad o'r fath)

Caiff cyflwyniadau eu gwerthuso gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:

Meini Prawf	Pwysiad
Profiad helaeth o gwblhau prosiectau tebyg i safon ragorol ac o fewn amserlen.	10%
Datganiad dull a dealltwriaeth o'r briff.	5%
Profiad o weithio ar asedau amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig.	15%
Pris.	70%

Bydd cyflwyniadau yn cael eu sgorio fel y nodir isod:

Sgoriau	Dyfarniad	Dehongli
5	Rhagorol	Arddangoswyd gallu eithriadol gan y Tendrwr o'r mesurau gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau a'r ansawdd perthnasol sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau. Mae'r ymateb yn nodi tystiolaeth i gefnogi'r ymateb. Mae tendrwr yn dangos yn glir yr hyn y byddant yn ei wneud i gyflawni'r gofyniad.



4	Da	Dangoswyd mesurau gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau ac ansawdd perthnasol sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau o safon uwch na'r cyfartaledd gan y Tendrwr.
3	Derbyniol	Dangosodd y Tendrwr bod ganddynt fesurau gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau ac ansawdd perthnasol boddhaol o'r hyn sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau.
2/1	Amheuon	Mae rhai / amheuon sylweddol o fesurau gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau a'r ansawdd perthnasol sy'n ofynnol gan y Tendrwr i ddarparu'r gwasanaethau.
0	Annerbyniol	Nid yw'n cydymffurfio a / neu nid oes gwybodaeth ddigonol wedi cael ei darparu i ddangos bod gan y Tendrwr y mesurau gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau ac ansawdd sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau.

8. Rheolau tendro

Ni fyddwn yn ystyried tendr unrhyw gwmni sy'n canfasio aelod o staff APCE yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran APCE, mewn perthynas â dyfarnu'r cytundeb hwn. At hynny, ni fyddwn yn ystyried tendr unrhyw gwmni sydd:

- i. Yn cytuno â chwmni arall i beidio â chyflwyno tendr, neu yn cytuno ar swm ei dendr â chwmni arall ymlaen llaw;
- ii. Yn cynnig neu'n cytuno i dalu neu roi arian, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw un sy'n gwneud rhywbeth neu yn peidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â'r tendr hwn.

Mae APCE yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau ac nid yw'n ymrwymedig i dderbyn pris y tendr isaf.

Byddwch yn datgan yr uchod trwy lofnodi'r ffurflen amgaeedig (Atodiad 3) a'i dychwelyd fel rhan o'r broses dendro.

9. Ymweliadau i'r safle

Mae groeso i rheini sydd hefo diddordeb tendro am y gwaith ymweld y safle.

10. Ymholiadau

Dylid cyfeirio ymholiadau mewn perthynas â'r tendr hwn at **Tomos Jones** gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ganlyn:

E-bost: tomos.jones@eryri.llyw.cymru

Ffôn: 01766 772518 neu 07900267526

